Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanllechid
Ysgol Llanllechid
Llanllechid
Gwynedd
LL57 3EG

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2011**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Llanllechid yn 2007 ac fe’i lleolir mewn caban ar dir yr ysgol gynradd yng nghanol pentref Llanllechid yng Ngwynedd. Mae’r plant sy’n mynychu’r lleoliad yn byw yn y pentref a’r ardaloedd cyfagos.

Mae’r lleoliad, a reolir gan bwyllgor gwirfoddol, yn gweithredu fel aelod o ‘Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Gwynedd’.  Mae’n aelod cofrestredig o’r Mudiad Meithrin.  Mae’r Cylch yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed.  Mae lle i hyd at uchafswm o 16 o blant.

Mae’r lleoliad ar agor am ddwy sesiwn bob dydd o’r wythnos o ddydd Llun hyd at ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.  Cynhelir y sesiwn bore rhwng naw a phum munud wedi un ar ddeg o’r gloch a’r sesiwn prynhawn o bum munud i un hyd dri o’r gloch.  Yn ystod yr arolygiad, yr oedd pum plentyn tair blwydd oedd ar y gofrestr ac roedd dau ohonynt yn bresennol.

Cymraeg yw iaith y cartref i’r rhan fwyaf o’r plant. Nid yw unrhyw blentyn ar y gofrestr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad ar hyn o bryd.  Cyflwynir y ddarpariaeth yn y Gymraeg.

Mae’r lleoliad yng ngofal y prif ymarferydd ac mae hi’n meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae dau ymarferydd arall yn gweithio rhan amser yn ogystal â myfyriwr llawn amser am flwyddyn.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2010. Dyma’r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

**Perfformiad presennol**

**Mae perfformiad y Cylch Meithrin yn ddigonol oherwydd:**

- mae dealltwriaeth yr ymarferwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda;
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad llythrennedd a rhifedd yn dda;
- rhoddir sylw bwriadus i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y meysydd dysgu ac i godi ymwybyddiaeth y plant o lendid ac iechyd;
- ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sydd wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau sydd wedi'u cyfeirio gan ymarferwyr;
- mae ansawdd yr addysgu yn y sesiynau torfol a'r grwpiau ffocws yn dda;
- mae'r plant ieuengaf yn ymateb yn dda i'r disgwyliad iddynt ymddwyn yn gyfrifol
- mae'r arfer o gofnodi datblygiadau arwyddocaol plant i greu darlun cyflawn o gynnydd plant yn effeithiol iawn ac mae'r adroddiadau i rieni yn gryfder;
- mae apêl y ddarpariaeth yn yr ardaloedd dysgu yn anwastad ac nid yw'r defnydd ohono bob amser wedi ei strwythuro'n ddigonol i hyrwyddo datblygiad yr holl blant;
- mae'r defnydd a wneir o arsylwadau i hybu datblygiad unigolion yn anghyson..

**Rhagolygon gwella**

**Mae'r rhagolygon gwella'r Cylch Meithrin yn ddigonol oherwydd:**

- mae'r ymarferwyr yn ymroddedig i hapusrwydd a chynnydd y plant;
- mae'r adroddiad hunanarfarnu yn onest, arfarnol a chywir;
- mae'r ymarferwyr wedi gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion adroddiad AGGCC 2010;
- mae natur ac effaith y bartneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol a'r Mudiad Meithrin yn dda;
- mae swyddogion newydd y Pwyllgor Rheoli, a'r Cadeirydd yn benodol, yn ymroddgar i fudd y plant ac i barhad a datblygiad y lleoliad. Mae eu dylanwad yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar reolaeth y lleoliad;
- mae'r rhieni a'r gofalwyr yn gefnogol a gwerthfawrogol o'r lleoliad a'i effaith gadarnhaol ar eu plant;
- nid yw pob ymarferydd yn meddu ar wybodaeth ddigon cyfredol mewn rhai meysydd am nad ydynt yn cael mynediad rhwydd a chyson i gyrsiau diweddaru;
- nid yw'r lleoliad bob amser yn barod i ymateb yn ddiymdroi i gyngor ac i argymhellion allanol;
- nid oes digon o gyfleoedd i'r holl ymarferwyr gydweithio mewn rhwydweithiau i rannu syniadau ac arferion da gyda lleoliadau eraill.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella mae angen i'r lleoliad:**

A1 sicrhau bod y ddarpariaeth yn yr ardaloedd dysgu yn apelgar ac wedi ei gynllunio i hyrwyddo datblygiad yr holl blant;

A2 gysoni'r defnydd da a wneir o arsylwadau i hybu datblygiad plant unigol;

A3 ddarparu mwy o gyfleodd i'r plant ymwneud â gweithgareddau awyr agored trwy gydol y flwyddyn;

A4 sicrhau bod y Person Cofrestredig yn gweithredu ei rôl yn llawn a bod y Pwyllgor Rheoli yn ffurfioli ei brosesau;

A5 gryfhau'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd leol i hwyluso trosglwyddiad y plant;

A6 drefnu mynediad digon buan a chyson i'r holl ymarferwyr i gyrsiau hyfforddi, bod yn agored i gyngor ac argymhellion allanol a manteisio ar gyfleoedd i gyd-weithio â lleoliadau eraill i rannu arfer dda.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim barn |
|---|---|

**Safonau: Dim barn**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, y safonau yn natblygiad eu medrau na'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim barn**

Nid oes adroddiad ar les y plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio hir dymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a diddordeb y plant.

Darperir profiadau da i hybu'r plant i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, corfforol a chreadigol. Rhoddir sylw da i hybu datblygiad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant ac i godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd glendid ac iechyd.

Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sydd wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau sydd wedi'u cyfeirio gan ymarferwyr. Mae'r cynllunio ar gyfer y gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr yng ngwaith dyddiol y cylch i ddatblygu hunan hyder yr holl blant. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd effeithiol iddynt ffurfio perthynas dda ag oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu'r iaith Gymraeg yn dda ac yn unol â pholisi dwyieithrwydd y lleoliad. Mae'n cynnwys sicrhau bod y plant yn ymwneud â llyfrau amrywiol, yn canu amrediad eang iawn o ganeuon ac yn ehangu eu geirfa drwy weithgareddau ymarferol ar y themâu penodedig.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais addas ar godi ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru ynghyd â diwylliannau eraill trwy ffocws arbennig i hyn, a thrwy ymwneud â theganau a llyfrau amrywiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn ymroddedig i hapusrwydd a chynnydd y plant ac mae ansawdd yr addysgu yn y sesiynau torfol a'r grwpiau ffocws yn dda. Mae ystod y

gweithgareddau ac adnoddau ym mhob ardal dysgu yn amrywio ac nid yw bob amser wedi ei strwythuro’n ddigonol i hyrwyddo datblygiad yr holl blant;

Ceir enghreifftiau da o ymarferwyr yn bwydo iaith yn fwriadus ac yn cefnogi plant drwy gwestiynu symbylol.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda ac mae perthynas gynhaliol yn bodoli rhyngddynt. Mae’r plant ieuengaf yn ymateb yn dda i’r disgwyliad iddynt ymddwyn yn gyfrifol.

Mae’r ymarferwyr yn arsylwi’r plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â’u gweithgareddau. Mae’r arfer o gofnodi datblygiadau arwyddocaol i greu darlun cyflawn o gynnydd yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae’r defnydd a wna’r lleoliad o’r arsylwadau hyn i hybu datblygiad unigolion yn anghyson.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu’n gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant ac mae’r adroddiadau i rieni yn gryfder.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar. Mae’r trefniadau sefydlu ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni neu ofalwyr yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda. Mae perthynas gynhaliol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a’r plant, ac i raddau helaeth, mae’r disgwyliad i blant ymddwyn yn gyfrifol wedi ei sefydlu’n gadarn. Maent yn hapus yn y lleoliad ac yng nghwmni’r oedolion.

Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn cael eu gweithredu’n dda. Darperir byrbrydau iach i bob plentyn yn ddyddiol. Mae’r cyfleusterau yn agos ac addas i blant ifanc.

Caiff y plant ag anghenion dysgu eu canfod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ar eu cyfer. Cydweithir yn addas gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddiwallu unrhyw anghenion penodol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant.

Mae’r Person Cofrestredig yn gweithredu prif gyfrifoldebau’r swydd.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo hyder a datblygiad personol plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol, yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae amgylchedd ddysgu'r lleoliad yn ddeniadol ac mae gwaith creadigol lliwgar y plant yn amlwg ar y waliau. Caiff yr holl blant fynediad cyfartal i’r cwricwlwm ac i’r holl weithgareddau a gyflwynir.

Mae gan y lleoliad nifer dda o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Nid ydynt oll yn cael mynediad llawn i'r cyrsiau hyfforddiant i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gwbl gyfredol

Mae'r cyflenwad ac ansawdd yr adnoddau yn anwastad ar draws y meysydd dysgu ac yn amrywio o ragorol i anfoddhaol. Mae'r defnydd a wneir ohonynt i gefnogi dysgu ac addysgu'r plant o oed a gallu amrywiol yn anghyson.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi'r ddarpariaeth ac i gysylltu â'r gymuned leol..

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn ymroddgar ac yn cydweithio'n dda fel tîm er budd y plant. Mae strwythur clir i'r sesiynau dysgu.

Mae'r arweinydd yn adnabod y plant, y lleoliad a'r ardal yn dda. Mae'r ymarferwyr oll yn meddu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth am ddatblygiad plant ond nid yw pob un yn cael mynediad i gyrsiau hyfforddi yn ddigon cyson.

Mae swyddogion newydd y Pwyllgor Rheoli, a'r Cadeirydd yn benodol, yn ymroddgar i fudd y plant ac i barhad a datblygiad y lleoliad. Mae eu dylanwad yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar reolaeth y lleoliad.
.
Mae polisïau addas yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae rhieni a gofalwyr yn gwbl ymwybodol o fodolaeth y drefn gwyno.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses o hunan arfarnu yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn ymgynghori â'r rhieni neu ofalwyr yn gyson ac ag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol i fwydo'r broses. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn onest, arfarnol a chywir ac yn nodi'n glir y cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r arweinydd a'r rheolwyr wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth i flaenoriaethu agweddau i weithredu arnynt.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-weithio'n effeithiol i lunio arsylwadau ar ddatblygiad plant i greu darlun cyflawn o gynnydd y plant, Nid ydynt bob amser yn defnyddio'u dadansoddiadau yn ddigon bwriadus i ymateb i anghenion dysgu'r holl blant.

Mae'r ymarferwyr wedi gweithredu ar ran fwyaf o argymhellion adroddiad diweddaraf AGGCC yn ôl eu gallu. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad bob amser yn barod i ymateb yn ddiymdroi i gyngor ac i argymhellion allanol. Prin yw'r cyfleoedd i'r holl ymarferwyr gydweithio mewn rhwydweithiau i rannu syniadau ac arferion da gyda lleoliadau eraill.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Ar y cyfan, mae’r partneriaethau’n dda o safbwynt eu cyfraniad i wella ansawdd addysg y plant sy’n mynychu’r lleoliad.

Mae’r arweinydd a Phwyllgor Rheoli newydd wedi gosod sylfaen dda i gydweithio er budd y plant ac i hyrwyddo parhad a datblygiad y lleoliad.

Mae’r bartneriaeth rhwng y Pwyllgor Rheoli a’r Mudiad Ysgolion Meithrin yn llawn gefnogi’r Pwyllgor Rheoli wrth iddo gychwyn ffurfioli ei brosesau rheolaethol.

Mae’r bartneriaeth gyda’r rhieni a’r gofalwyr yn dda iawn. Maent yn gefnogol a gwerthfawrogol iawn o’r lleoliad a’i effaith gadarnhaol ar eu plant.

Mae’r arweinydd yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol.

Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu’r plant a threfnir ymweliadau lleol amrywiol. Mae’r bartneriaeth gyda’r *Cylch Ti a Fi* lleol yn fanteisiol i drosglwyddiad y plant i gam nesaf eu haddysg. Nid yw’r cysylltiad â’r ysgol gynradd leol yn hybu trosglwyddiad y plant yn ddigonol.

## Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o gryfderau’r ymarferwyr er budd addysg y plant. Mae gan yr holl ymarferwyr swydd ddisgrifiadau addas. Mae eu dealltwriaeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferydd yn meddu ar wybodaeth ddigon cyfredol mewn rhai meysydd am nad ydynt yn cael mynediad rhwydd a chyson i gyrsiau diweddaru.

Mae’r ymarferwyr yn gwerthuso eu gwaith yn gyson ond nid yw’r broses wedi ei ffurfioli’n ddigonol i gynnwys cyfraniadau gan y Pwyllgor Rheoli i hybu eu datblygiad proffesiynol.

Mae’r ystafell ddysgu yn addas ac, os yw’r tywydd yn caniatáu, mae’r plant yn chwarae ar fuarth yr ysgol am gyfnod byr bob dydd. Maent yn defnyddio’r ystafell dysgu ar gyfer datblygiad corfforol yn y Gaeaf. Nid ydynt yn gwneud defnydd digonol o’r cyfleusterau awyr agored ar draws y flwyddyn.

Mae ansawdd yr adnoddau yn amrywio. Er bod enghreifftiau da, ni wneir defnydd digon strwythuredig ohonynt i gefnogi anghenion dysgu amrywiol y plant.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni a gofalwyr**

Derbyniwyd pump o holiaduron gan rieni neu ofalwyr ac un a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau swyddogol. Mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am bob agwedd o’r ddarpariaeth gan bob un. Mae’r rhieni a gofalwyr yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd sylweddol mewn amser byr a’u bod yn ddiogel yno. Maent oll o’r farn bod y plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. Dywed y rhieni a gofalwyr bod yr arweinydd a’r ymarferwyr oll yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu’n dda yn eu cwmni. Maent oll o’r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn hapus wrth iddynt gyrraedd y lleoliad a chyfarfod yr ymarferwyr. Maent yn gyfarwydd â threfn y sesiynau ac yn gwbl gartrefol ynddi. Ymunant yn frwdfrydig yn y sesiynau canu ac maent yn gweithio’n dda ar y cyd i dacluso ar ddiwedd gweithgareddau.

## Atodiad 2

**Yr Arolygydd Cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)